

Cronfa Gwaddol Dr Dewi Davies

Meini prawf cyllid: Unigolion



Mae Cronfa Waddol Dr Davies yn cefnogi unigolion drwy:

- Adeiladu hyder ac ehangu gorwelion i'r rhai sydd ag adnoddau ariannol cyfyngedig.
- Galluogi unigolion talentog i ddilyn eu huchelgeisiau, er enghraifft trwy fwrsariau, offer, offerynnau, ysgoloriaethau, cymorth teithio, cymorth chwaraeon, gwobrau cyrhaeddiad, a deunyddiau addysgol.

Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £500 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

Pwy gall ymgeisio?

Unigolion rhwng 11 a 25 oed, sy'n dod o'r Ardaloedd Allbwn Uwch Haen Isaf (LSOAs) neu sy'n byw ynddynt ar hyn o bryd, neu Wardiau fel y'u gelwir yn fwy cyffredin:

Yn Sir Gaerfyrddin :

- Cenarth,
- Cynwyl Elfed 1,
- Llanfihangel ar Arth 1 & 2,
- Llangeler
- Llanybydder 1 & 2.

Yng Ngheredigion:

- Aberporth 1 a 2
- Beulah
- Capel Dewi
- Aberteifi Mwldan
- Aberteifi Rhyd y Fuwch
- Aberteifi Teifi,
- Llandyfriog
- Newcastle Emlyn
- Tref Llandysul
- Llanwenog
- Penbryn, Pen-parc 1 a 2
- Troedyrour



Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan. Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr cynnig a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid aml-flwyddyn

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol ac y gall cael cyllid diogel roi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir.

Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect neu eitemau bach 1 flwyddyn.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud **o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn**. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, bydd angen dangos yr angen a'r effaith o gael cyllid am sawl blwyddyn yn eich ffurflen gais. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.